**CYPE(5)-29-20 - Papur i'w nodi 8**

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
Welsh Parliament
**Children, Young People and Education Committee**

Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg

Eluned Morgan AS, Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg

Dyddiad | Date: 17 Tachwedd 2020

Pwnc | Subject: **Cefnogaeth i iechyd meddwl a lles dysgwyr**

Annwyl Weinidogion,

Fel rhan o'n gwaith parhaus yn ystyried effaith Covid-19 ar blant a phobl ifanc, mae iechyd meddwl a lles ein dysgwyr wedi bod yn un o'n prif flaenoriaethau.

Trwy gydol yr argyfwng iechyd cyhoeddus, rydym wedi clywed ystod eang o bryderon, ac mae rhai ohonynt yn awgrymu y gallai'r canlyniadau anfwriadol sy'n deillio o'r cyfyngiadau a wnaed i reoli'r pandemig fod yn cael mwy o effaith ar blant a phobl ifanc na'r feirws ei hun. Byddwch yn ymwybodol ein bod ni **wedi cyflwyno adroddiad** ym mis Gorffennaf 2020 yn datgan ein bod yn credu bod camau i gefnogi iechyd meddwl a lles ein plant yn bwysicach nawr nag erioed.

Mae gan leoliadau addysgol ran arbennig o bwysig i'w chwarae yn hyn o beth, ac rydym yn croesawu'r buddsoddiad sylweddol a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn ystod y misoedd diwethaf i gefnogi iechyd meddwl a lles dysgwyr yn benodol. Mae hyn yn cynnwys:

- y cyhoeddiad o £3.75 miliwn a wnaed ar y cyd rhwng y Gweinidog Addysg a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym is Mai 2020, at ddibenion cefnogi iechyd meddwl a lles mewn ysgolion, gan gynnwys cymorth o'r newydd ar gyfer plant o dan 11 oed ac ar gyfer athrawon; a'r

- £1.25 miliwn a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Addysg ym mis Ebrill 2020 ar gyfer gwasanaethau cwnsela ysgolion, i ddelio â'r cynnydd a ragwelir yn y galw trwy gydol y pandemig.

Byddem yn croesawu manylion pellach ynghylch pa waith penodol y mae'r £3.65 miliwn yn cael ei wario arno, sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r defnydd o'r cyllid hwn a'r effaith y mae'n ei chael. O ran y cyllid ar gyfer gwasanaethau cwnsela ysgolion, byddem yn croesawu gwybodaeth am sut y dyrannwyd yr arian hwn, ac unrhyw wybodaeth ystadegol sydd ar gael ar hyn o bryd. Byddem hefyd yn ddiolchgar pe gallech roi sicrwydd bod yr holl arian hwn yn cael ei ddefnyddio fel y bwriadwyd, a phe gallech amlinellu sut rydych chi'n gofyn am adborth ynghylch yr effaith y mae'r arian hwn yn ei chael ar les dysgwyr.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPPIA@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCYPE@senedd.wales
0300 200 6565

O ystyried ein diddordeb yn y maes hwn yn arbennig, a'r ymchwiliad yr ydym wrthi'n ei gynnal, byddwn yn gwerthfawrogi—os yw'n bosib—pe gallech ymateb cyn ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 26 Tachwedd 2020, i lywio ein sesiwn.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh